

**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, Ffordd RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 7<sup>FED</sup> MEDI 2015 AM 6.00 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Maer y Dref, Y Cynghorydd Dr S. Roy, (Cadeirydd)  
Y Cynghorwyr W. Bagnall, J. Davies, R. Foreman, D.  
Griffiths, Mrs L. Griffiths, Mrs M. Jones, Mrs H. Meredith, J.  
Pearson, Mrs V. Perry, Mrs V. Smith Y.H., S. Taylor, G. Ward,  
S. Williams.

**SWYDDOG:** Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mrs Sasha Davies a Mr John Hardy, CBS Conwy  
Cynghorydd Graham Rees, CBS Conwy  
Mr Rupert Moon, Undeb Rygbi Cymru (URC) / CBS  
Conwy.  
Mr Darren Millar, A.C.

**137/15 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs L. Edwards, A. Khan, A. Pearson, C. Perry a P. Richards.

**138/15 Cyhoeddiadau'r Maer:**

Nid oedd gan y Maer unrhyw gyhoeddiadau.

**139/15 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**140/15 Ymwelwyr â'r Cyngor:**

- a. Croesawyd Sasha Davies, John Hardy a'r Cynghorydd Graham Rees, Aelod Cabinet CBS Conwy a Rupert Moon (URC), i'r cyfarfod gan y Maer, er mwyn iddynt roi trosolwg o'r bartneriaeth rhwng CBS Conwy ac URC a diweddariad am y cynlluniau i ddatblygu Stadiwm Eirias yn y dyfodol.

Rhodddwyd cyflwyniad am yr agweddau allweddol canlynol:

- Arwyddo cytundeb 5 mlynedd newydd gydag URC (ar derfyn y cytundeb 3 blynedd ddechreuol)
- Sefyllfa Rupert Moon fel y Rheolwr Cyffredinol a'i waith am 2 ddiwrnod yr wythnos o godi proffil y ganolfan sydd, trwy'r sylw caiff hyn gan y cyfryngau cenedlaethol a byd-eang, yn helpu i roi Bae Colwyn ar y map.
- Y weledigaeth bydd Stadiwm Eirias yn Ganolfan Rhagoriaeth Gogledd Cymru i chwaraeon a digwyddiadau.
- Buddsoddiad o oddeutu £1m gan URC yng Ngogledd Cymru, yn ychwanegol i'r grantiau a roddir i gefnogi clybiau unigol.
- Academi i ddatblygu doniau ifanc ar draws yr ardal - yn seiliedig ar addysg ac yn gysylltiedig â Rydal Penrhos a Choleg Llandrillo
- Datblygiad timau dan 16 a than 18 Rygbi Gogledd Cymru a llwyddiant y tîm cyntaf (sydd yn awr un cynghrair i ffwrdd o fod yn y bencampwriaeth) a chefnogaeth i rygbi genethod a merched.

- Gemau rheolaidd yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau proffil uchel (e.e. Rygbi Rhyngwladol dan 20 ac ymweliad diweddar gan Sgwad Cwpan y Byd).
- Gwaith gyda throseddwr ifanc a Heddlu Gogledd Cymru i helpu'r rhai gyda chefnidir heriol a hefyd efo Ymddiriedolaeth y Tywysog.
- Gwaith gyda Chartrefi Cymru trwy fynd a staff allan i'r gymuned.
- Chwaraewyr hŷn yn cytuno i wneud 15 awr yr wythnos o waith gwirfoddol e.e. gweithio mewn llyfrgelloedd lleol i helpu pobl ifanc i ysgrifennu CV a chael cyfeiriadau e-bost er mwyn chwilio am waith.
- Defnyddio pobl ifanc fel 'disgyblion' i ddychwelyd i'w hysgolion i fod yn ddelfrydau ymddwyn da er budd y gymuned ehangach
- Budd economaidd a ddaw trwy ddod a digwyddiadau o bwys e.e. Mynediad i Bawb i Eirias (£295k), Rygbi (£230k) a 'r Triathlon (£170k)
- Gwell cyfleusterau ar gael i'w defnyddio gan ysgolion a chlybiau lleol.
- Potensial am ddigwyddiadau yn y dyfodol, yn cynnwys yr ŵyl Rygbi rhyngwladol dan 16 a fydd yn denu teuluoedd o bob rhan o Ewrop i aros yn yr ardal (o Ebrill 2016) a chwaraeon eraill (e.e. Pêl-droed Gwyddelig, hoci).
- Llauer o gyhoeddusrwydd da a chadarnhaol yn y wasg i roi Bae Colwyn yn ôl ar y map a dyfyniadau gan fusnesau lleol yn cadarnhau'r buddiannau i'r dref.
- Cyrhaeddodd y Cynghorwyr H. Meredith, V. Smith ac S. Williams yn ystod y cyflwyniad

Dilynwyd y cyflwyniad gyda sesiwn o holi ag ateb gyda chwestiynau am: sefyllfa bresennol yr academi; a oes digon o lety yn lleol ym Mae Colwyn i chwaraewyr yr academi / tîm; a yw gwaith y clybiau rygbi lleol yn cael ei danseilio trwy'r chwaraewyr gorau yn gadael i ymuno a'r academi / Tîm Rygbi Gogledd Cymru; pryderon bod chwaraewyr yn cael eu denu o rai clybiau lleol mewn gem i 'amaturiaid'.

Diolchwyd i'r gwesteion am fod yn bresennol ac am y cyflwyniad addysgiadol, ac yna gadawsant y cyfarfod.

- b.** Yna fe groesawyd yn ffurfiol Darren Millar AC i'r cyfarfod gan y Maer, er mwyn iddo annerch yr Aelodau am faterion cyfredol ac i ymateb i unrhyw gwestiynau / pryderon.

Diolchodd Mr Millar i'r aelodau am y cyfle i fod yn bresennol a gofynnodd i'r cofnod ddangos ei fod yn cydnabod y gwaith rhagorol a wnaed yn y blynyddoedd diweddar tuag at adnewyddu Bae Colwyn. Dywedodd bod yr holl ardal 'ar i fynnu' gyda'r datblygiadau ym Mharc Eirias, y traeth newydd a'r stryd fawr a wobrwyrwyd yn cael sylw arbennig. Dyma ganlyniad o bobl yn cydweithio, yn cynnwys y Cyngor Tref, CBS Conwy a Llywodraeth Cymru. Yna cyfeiriodd at y materion dyrys oedd angen eu datrys, yn cynnwys Pier Bae Colwyn a'r angen i gyfalafu mwy ar y buddsoddiad yng nghanol Bae Colwyn er mwyn taenu'r buddiant ymhellach i Hen Golwyn a Llandrillo yn Rhos. Cyfeiriodd hefyd at gyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar am orsaf rheilffordd Bae Colwyn, sef y man cyntaf i groesawu llauer o

ymwelwyr i Fae Colwyn ac sydd yn dal angen ei ailwampio / moderneiddio. Bu Network Rail, Arriva a ChBS Conwy yn rhan o'r trafodaethau cychwynnol, ond mae llawer mwy o waith i wneud. Bu'r trafodaethau yn ymwneud a'r posibilrwydd o gysylltu'r orsaf a'r Promenâd, naill ai trwy ailagor allanfa neu ailwampio'r orsaf.

Aeth ymlaen i gyfeirio at nifer o faterion cyfoes am iechyd, yn cynnwys y posibilrwydd o israddio gwasanaethau yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC) ymhellach, a chyfeiriodd at yr ymgynghoriad presennol ar ddyfodol gwasanaethau mamolaeth ac iechyd clinigol i ferched ac anogodd pob aelod i ymateb i hwn. Cyfeiriodd hefyd at ymweliad a wnaeth i Ysbyty Bae Colwyn yr wythnos diwethaf pan 'dywedodd ei ddweud' wrth Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am y posibilrwydd o ailgyflwyno Uned Man Anafiadau (UMA) oherwydd yr effaith negyddol cafodd ei gau ar YGC. Dywedodd hefyd bod UMA Llandudno i ailagor mewn ychydig wythnosau.

Wrth derfynu, canmolodd y Clerc a'r Maer am Wasanaeth Dinesig y Cyngor a gynhaliwyd y Sul diwethaf a gofynnodd i'r Aelodau am unrhyw gwestiynau.

Dilynwyd y cyflwyniad gyda sesiwn o holi ag ateb yn ymdrin â'r canlynol: pryderon am y prinder Meddygon Teulu a'r angen am Ysgol Feddygol i ddenu mwy o staff iau i Ogledd Cymru; diffyg swyddi hyfforddi i feddygon iau a dim cyfleoedd ymchwil i ddenu / cadw staff; yr angen i fod mewn partneriaeth â Phrifysgolion Lerpwl / Manceinion i gael mwy swyddi / cyfleoedd hyfforddiant lleol i ddatblygu arbenigeddau; bwriad Meddygon Teulu yn Lloegr i weithio 7 diwrnod yr wythnos ac a oes angen am hyn yng Nghymru; pryderon am y camddefnydd o'r gwasanaeth iechyd e.e. colli apwyntiadau a mân anhwylderau yn cymryd apwyntiadau brys; yr angen i ailagor y 'ffordd' i'r Promenâd ac i ailagor Ffordd yr Orsaf i gerbydau / parcio; y posibilrwydd o gael mur gwydr yn yr orsaf er mwyn arddangos y traeth / promenâd.

Diolchwyd i Mr Millar am fod yn bresennol ac yna fe adawodd y cyfarfod.

#### **141/15 Cofnodion:**

- a. *Penderfynwyd derbyn, cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 20<sup>fed</sup> Gorffennaf 2015.*
- b. *Penderfynwyd derbyn copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:*
  - i. *Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 28<sup>ain</sup> Gorffennaf 2015.*
  - ii *Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 12<sup>fed</sup> Awst 2015 (Drafft)*
  - iii *Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 18<sup>fed</sup> Awst 2015.*

#### **142/15 Materion yn Codi o'r Cofnodion Hyn :**

- a. *Penderfynwyd cadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel y dangosir yn y Cofnodion a ganlyn:*

*i Cofnod 124/15 - Mesur drafft Iechyd Cyhoeddus (Isaf Bris am Alcohol) (Cymru); Ymateb trwy ddweud nad yw'r Cyngor yn cytuno a'r cynnig i gyflwyno isaf bris am uned o alcohol.*

**b** Fe nodwyd penderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.

#### **143/15 Cynghorwyr:**

- a.** Fe nodwyd bod y safle gwag yn Ward Eirias wedi cael ei gyhoeddi yn dilyn ymddiswyddiad diweddar y Cynghorydd J. Reaney ac fe ddaw yn hysbys yn ddiweddarach yn yr wythnos os bydd etholiad yn cael ei gynnal
- b.** Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried llenwi'r safleoedd gwag i fod yn gynrychiolwyr ar fudiadau allanol a achoswyd trwy ymddiswyddiad y Cynghorydd Reaney.

*Penderfynwyd gwneud y penodiadau canlynol, i ddod i rym yn ddi-oed:*

- i Cymdeithas Gefeillio Colwyn ac Abergele – Cynghorydd D. Griffiths*  
*ii Fforwm Ieuenctid Conwy - dileu o'r rhestr am ei fod yn anweithredol*  
*iii Llofnodydd banc newydd – Cynghorydd D. Griffiths (fel Is-Gadeirydd) Pwyllgor Polisi a Chyllid).*
- iv* Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, diweddariad ar statws a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Paul Richards i gadarnhau ei fod yn awr yn aelod o'r Blaid Gydweithredol.

#### **144/15 Canlyniad Blynyddol:**

Fe nodwyd bod yr archwiliad allanol wedi cael ei gwblhau'n foddhaol ac fe gyhoeddwyd yr hysbysiad am ddiwedd yr archwiliad.

#### **145/15 Pier Fictoria Colwyn (PFC):**

Cyflwynodd y Clerc nodiadau drafft o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar rhwng y Cyngor Tref / Grŵp Llywio Ymddiriedolwyr PFC a ChBS Conwy, ac ar ran y Cynghorydd A Khan, na allai fod yn bresennol heno, gofynnodd i'r Aelodau ystyried a oedd unrhyw gyllid ar gael i helpu Ymddiriedolwyr PFC gyda'r costau o ymgryfhau'r cais i HLF yn barod i'w ailgyflwyno i HLF yn Nhachwedd. Dywedwyd wrth yr aelodau bod cyllideb o £20,000 wedi cael ei ddynodi yn 2015/16 tuag at y cam dichonadwy i ddatblygu'r prosiect. Ni fyddai'n bosibl i symud ymlaen gyda hyn heb gefnogaeth gan GBS Conwy ag HLF am gais cadarnach. Fe amcangyfrifwyd gallai'r holl gostau am y gefnogaeth broffesiynol oedd ei angen fod rhwng £2,000 a £3,000 ac fe nodwyd bod Ymddiriedolwyr PFC am gyfrannu tuag at gostau'r gwaith yma, trwy arian parod (y swm i'w gadarnhau) ac amser gwirfoddolwyr yn mynychu cyfarfodydd ac yn ailysgrifennu rhannau o'r cais. Fe nodwyd bod cyfres o gyfarfodydd wedi cael eu cynllunio gyda ChBS Conwy yn y misoedd i ddod i geisio dulliau i oresgyn eu pryderon am y cais gwreiddiol.

Cafwyd trafodaeth am y manteision a'r anfanteision o'r ymdrechion cyfredol i achub y Pier a'r costau dichonadwy i drethdalwyr lleol yn y dyfodol. Fodd bynnag, fe nodwyd mai'r trethdalwyr lleol byddai'n gorfod talu rhan sylweddol o'r costau o'r rhan ddymchwel ac mai ychydig iawn o bobl oedd yn hapus gyda'r cais presennol i ran ddymchwel y strwythur gan adael 76 o gledrau ar y traeth.

Llawer o gyhoeddusrwydd da yn y wasg i osod Bae Colwyn yn ôl ar y map a dyfyniadau gan fusnesau lleol yn cadarnhau buddiannau i'r dref.

**146/15 Grantiau i Ddigwyddiadau:**

Cyflwynodd y Clerc, i'w ystyried, dyfyniad o Gofnodion yr Is-Bwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 2/6/2015, a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cais am Grant i Ddigwyddiad (Gŵyl Cyfnos Nadoligaidd) a dderbyniwyd oddi wrth Fenter Treftadaeth Treflun Bae Colwyn.

***Penderfynwyd cymeradwyo grant o £2,400 tuag at gostau'r digwyddiad hwn allan o weddill y Gyllideb i Ddigwyddiadau na chafodd ei ddyrannu ar gyfer 2015/16.***

Daeth y cyfarfod i am 8.05 p.m.

..... Cadeirydd